Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Bodlondeb**
**Conwy**
**LL32 8DU**

**Mawrth 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

### Cyd-destun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i leoli yng nghanol gogledd Cymru. Mae ganddo boblogaeth o 111,400. Yng Nghonwy, mae 34.3% o bobl dros dair oed yn siarad Cymraeg, o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 25.6%.

Mae gan Gonwy y gyfran isaf o drigolion o oedran gweithio yng Nghymru, sef 58.7%. O'r rhain, mae 26.8% yn economaidd anweithredol, sydd ychydig yn is na'r 27.2% ledled Cymru gyfan. O'r boblogaeth sydd o oedran gweithio yng Nghonwy, nid oes gan ychydig yn llai nag 13% ohonynt unrhyw gymwysterau, sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 15%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol yng Nghonwy sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 18.1%, sy'n debyg i'r 18.9% ledled y wlad. Y lefel gymhwyster hon yw'r 11eg uchaf yng Nghymru. Pedair yn unig o'r 71 o ardaloedd yng Nghonwy sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1.1% o'r boblogaeth, sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Asesiad o Wariant Safonol (AWS) Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2010-2011 oedd £1,698 y pen. Hon yw'r lefel gyfartalog ledled Cymru. Fel yn y gorffennol, mae'r cyngor yn gosod ei gyllideb refeniw cyffredinol o gwmpas 98% o'r AWS, gan ei alluogi i gynnal lefelau isel iawn o'r Dreth Gyngor.

Yn 2010-2011, gosododd y Cyngor ei gyllideb addysg ar £4,981 fesul disgybl, heb gynnwys grantiau. Mae hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, sef £4,816 fesul disgybl.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru'n dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 75% o'r gyllideb addysg sydd ar gael i'r ysgolion. Mae'r lefel ddirprwyo hon yn gyson â'r cyfartaledd yng Nghymru.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Da**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda oherwydd:

- mae plant a phobl ifanc yn cyflawni safonau da ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4;
- ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig, ac mae hyn ymhlith y gorau yng Nghymru;
- mae cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn dda ac mae'r gwaith o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn rhagorol; ac
- mae perthynas gadarnhaol a chyfathrebu da rhwng aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn y gwasanaeth addysg. Mae hyn yn cyfrannu at ethos tîm sy'n helpu i gyflwyno cynlluniau strategol a busnes y gwasanaeth.

**Gallu i wella: Da**

Mae gan yr awdurdod lleol ragolygon gwella da oherwydd:

- mae'r awdurdod wedi rheoli datblygiad ei Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn effeithiol ac wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion uwchradd bresennol yn ofalus; ac
- mae gan yr awdurdod hanes da o wella'n barhaus. Mae wedi ymateb yn dda i'r argymhellion o adroddiadau Estyn ar wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid yn 2008.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r awdurdod:

A1 barhau i ddatblygu mesurau gwella ansawdd i sicrhau bod arfarniadau strategol yn dangos pa mor dda y mae darpariaeth yn bodloni anghenion dysgwyr;

A2 arfarnu effaith dirprwyo mwy o gyllid i ysgolion ar ddeilliannau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;

A3 sicrhau y caiff meini prawf clir a thryloyw eu defnyddio ar gyfer dyrannu ysgolion i wahanol gategorïau perfformiad o fewn yr awdurdod; a

A4 gwella monitro hyfforddiant ar gyfer amddiffyn a diogelu plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn cyn pen 50 niwrnod gwaith o gael yr adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion ym mhob cyfnod allweddol yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig o gwmpas cyfartaledd Cymru. Mae lefelau prydau ysgol am ddim yng Nghonwy yn agos at y cyfartaledd yng Nghymru.

Yn 2010, roedd cyfran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 1 ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad ychydig yn is na'r cyfartaledd yn y dangosydd pwnc craidd hefyd (y perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol), er ei fod yr un fath neu'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer pob un o'r pynciau craidd. Mae perfformiad mewn tua hanner yr ysgolion yng Nghonwy yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion cynradd tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Yn 2010, roedd perfformiad cyfartalog disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd pwnc craidd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad cyfartalog yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn debyg neu'n uwch na'r cyfartaleddau Cymru gyfan; cyfran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg, oedd yr wythfed uchaf yng Nghymru. O'u cymharu ag ysgolion uwchradd tebyg, mae tua hanner yr ysgolion yng Nghonwy yn uwch na'r cyfartaledd.

Ac eithrio un dangosydd yn 2009, fe wnaeth Conwy fodloni neu ragori ar bob un o feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, o 2007 hyd 2010. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ennill medrau mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith ac, ar y cyfan, yn cyflawni safonau da yn y ddau bwnc. Mae medrau llythrennedd yng nghyfnodau allweddol 1 i 3 yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae medrau rhifedd yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched ym mhob cyfnod allweddol yn debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru. Fel arfer, mae grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys rhai o grwpiau sy'n agored i niwed a rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyrraedd eu lefelau disgwyliedig neu'n rhagori arnynt. Mae gan ddysgwyr dan ofal yr awdurdod lleol ddeilliannau da.

Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig ac mae perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae canran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gwella ac, erbyn hyn, mae'n well na'r cyfartaledd yng Nghymru, ynghyd â'r ganran sy'n aros mewn addysg amser llawn ôl-16.

Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf o ran datblygu cyfleoedd i bobl ifanc gyflawni deilliannau achrededig o ganlyniad i'w hymgysylltiad â'r gwasanaeth. Mae'r data cyfyngedig

sydd ar gael ar gyflawniadau pobl ifanc mewn lleoliadau anffurfiol a lleoliadau heb fod yn ffurfiol yn awgrymu bod y bobl ifanc hyn yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi dadansoddi'r data sydd ar gael yn effeithiol er mwyn mesur yn gywir y safonau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni trwy addysg anffurfiol ac addysg heb fod yn ffurfiol.

**Lles: Da**

Yn gyffredinol, mae'r safonau lles ymhlith pobl ifanc yn dda.

Mae pobl ifanc yn cyfranogi'n dda yn y cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Mae lefel bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda. Mae presenoldeb yn uwch o lawer na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mae llawer o'r bobl ifanc y mae angen help arnynt i barhau mewn addysg yn ymateb yn dda i waith cymorth wedi'i dargedu'n dda ac yn datblygu'r medrau a'r hyder i ymgymryd â chwrs neu gyflogaeth.

Mae nifer y dyddiau sy'n cael eu colli ar gyfartaledd oherwydd gwaharddiadau am gyfnod penodol yn golygu mai Conwy oedd y pumed awdurdod lleol gorau yng Nghymru o ran perfformiad yn 2009-2010. Nid oedd unrhyw waharddiadau parhaol. Mae systemau rheoli da ar waith i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd ac i reoli symudiadau, lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cynyddu nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd am chwe diwrnod neu fwy ond, oherwydd y broses reoledig, mae'r bobl ifanc hyn yn osgoi cael eu gwahardd ac yn parhau i dderbyn addysg y tu allan i'r ysgol. Lle mae disgyblion yn mynychu unedau cyfeirio disgyblion, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn dda iawn i gymorth wedi'i deilwra'n ofalus ac maent yn ail-ymgysylltu'n dda ag ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer y bobl ifanc sy'n mynychu gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn dda, sef 23% o'r boblogaeth, Mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda â rhaglenni sy'n hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw. Mae arfarniadau disgyblion a rhieni, monitro gwasanaethau ac adroddiadau ysgolion yn awgrymu bod disgyblion yn ymgysylltu'n fwy â mentrau iechyd a lles sy'n hyrwyddo bwyta'n iach, ymarfer corff, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol. Hefyd, mae pobl ifanc yn datblygu mwy o hunan-barch a medrau cyfathrebu trwy'r rolau addysg a chynorthwyo cyfoedion sy'n cael eu cynnig gan y rhaglenni hyn.

Mae nifer y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn lleihau. Mae mwy o bobl ifanc yn llwyddo i osgoi troseddu oherwydd ymyrraeth gynnar effeithiol gan y tîm troseddau ieuenctid a gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol.

Mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid trwy'r amrywiaeth o gynghorau ysgol a'r cyngor ieuenctid. Mae pobl ifanc yn cyfrannu'n dda at ddatblygu cynlluniau a pholisïau ac yn codi ymwybyddiaeth aelodau etholedig a swyddogion allweddol o broblemau pobl ifanc.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Da

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu diwylliant colegol cryf â'i ysgolion, ar sail cydymddiriedaeth, hyder a chymorth sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Ers yr arolygiad diwethaf, mae trylwyrder her yr awdurdod i ysgolion wedi cynyddu ac mae'n dechrau mynd i'r afael â thanberfformio yn fwy cadarn. Er bod yr awdurdod yn weddol fach, mae'n gefnogol ac yn ymatebol i anghenion ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu dadansoddiad manwl iawn o ddata i ysgolion. Mae gan ysgolion ddealltwriaeth glir a thrylwyr o'u perfformiad mewn dangosyddion allweddol mewn perthynas ag ysgolion a meincnodau tebyg.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu system i ddyrannu ysgolion cynradd i wahanol gategorïau perfformiad. Mae'n defnyddio data a gwybodaeth arall yn dda, gan gynnwys arsylwi dosbarthiadau, i wneud hynny. Mae ysgolion cynradd yn gwybod pa gategori y maent ynddo ac yn deall y rhesymau pam y maent yn y categori hwnnw. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf yn ddigon penodol bob tro. Yn gyffredinol, mae'r awdurdod yn defnyddio categorïau hyn yn dda i dargedu cymorth i anghenion yr ysgolion. Caiff yr ychydig iawn o ysgolion sydd yn y categori isaf gymorth systematig ac effeithiol sydd wedi'i gynllunio'n dda.

Ni chaiff ysgolion uwchradd eu categoreiddio yn yr un modd, ond mae'r awdurdod yn defnyddio ei wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad i gynnal adolygiadau trylwyr a heriol. Yn ddiweddar, rhoddwyd ymyrraeth a chymorth i fynd i'r afael â'r gwendidau mewn un ysgol uwchradd yn sylweddol gynt. Mae'r awdurdod wedi dechrau eu herio a'u cynorthwyo'n gadarn. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y mae hyn wedi dechrau effeithio ar safonau.

Mae llywodraethwyr yn gyfarwydd â'r categorïau ysgolion a'u proffiliau unigol mewn ysgolion cynradd. Maent yn deall eu rôl fel cyfaill beirniadol yn glir ac yn ymwybodol o'r setiau data craidd a theuluoedd ysgolion.

Mae'r awdurdod yn cynorthwyo ysgolion yn dda i fodloni ystod eang o anghenion, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm, a chefnogi a datblygu arweinwyr a llywodraethwyr. Mae swyddogion yn hawdd mynd atynt ac yn ymatebol, gan ddarparu cyngor defnyddiol a chall. Mae'r awdurdod yn bodloni'r anghenion sy'n cael eu nodi'n briodol yn dda trwy raglen eang o hyfforddiant mewn swydd, cymorth yn yr ysgol a chydweithio rhwng ysgolion. Un o rannau allweddol y ddarpariaeth hon yw defnyddio Gwasanaeth Cwricwlwm a Cynnal yn strategol, sy'n darparu gwasanaethau cymorth cwricwlaidd sy'n cael eu rhannu ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r awdurdod wedi darparu cymorth da ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a datblygu rhifedd a llythrennedd. Mae'r gwaith i ddatblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn arbennig o dda.

## Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Da

Mae'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth o ansawdd da i ysgolion, trwy weithio mewn partneriaeth agos ag ystod eang o asiantaethau.

Yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau nifer y datganiadau o anghenion addysgol arbennig trwy amnewid y rhain am gontractau rhieni, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r contractau hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar wasanaethau a chymorth o ansawdd da o hyd i fodloni eu hanghenion canfyddadwy. Mae'r awdurdod yn cwblhau 91% o ddatganiadau o fewn y terfynau amser statudol. Mae hyn yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae systemau da ar waith i sicrhau y caiff ystod o anghenion meddygol mewn plant cyn oed ysgol eu hadnabod yn gynnar, gan ddefnyddio ymwelwyr iechyd. Mae'r trefniadau hyn yn golygu y gall yr awdurdod integreiddio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus mewn lleoliadau prif ffrwd, yn hytrach na'u rhoi mewn darpariaeth arbenigol.

Mae meini prawf mynediad ac ymadael clir yn pennu'r lefelau cymorth i fodloni ystod o anghenion arbenigol disgyblion. Mae'r ysgolion yn deall penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn cyfarfodydd paneli cymedroli amlasiantaeth yn glir.

Mae'r gwasanaethau yn darparu ystod eang o hyfforddiant o ansawdd uchel i ysgolion. Mae gwasanaethau arbenigol, fel y rhai ar gyfer dyslecsia ac iaith a lleferydd, yn monitro effeithiolrwydd eu hyfforddiant a'u darpariaeth yn ofalus ac yn dangos yn glir sut y maent yn gwella deilliannau i ddisgyblion.

Mae systemau da iawn ar waith i olrhain cynnydd disgyblion o oed cynradd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn rhifedd a llythrennedd. Mae'r awdurdod yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i dargedu'r modd y mae'n defnyddio cynorthwywyr cymorth arbenigol. Mae'r awdurdod yn y camau hwyr o addasu ei system olrhain data cynradd i'w galluogi i gasglu data manwl gywir ar anghenion dysgu ychwanegol disgyblion uwchradd.

Mae'r awdurdod yn rhoi gwybodaeth dda i rieni, gan gynnwys sut i fanteisio ar wasanaeth cyfryngu. Mae darpariaeth dda i rieni a disgyblion roi eu barn mewn adolygiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion. Mae 'Amser i Siarad' yn rhoi cyfle da i rieni gysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaeth seicoleg addysg bob mis.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Rhagorol**

Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn effeithiol iawn. Mae'r gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg yn sicrhau bod grwpiau sy'n agored i niwed yn cael gofal da. Mae wedi cyflwyno fforwm amlasiantaeth defnyddiol i adolygu anghenion cymorth dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae'r gwasanaeth yn monitro tueddiadau presenoldeb yn effeithiol ac yn darparu cymorth da targedig i ysgolion. Mae ei Nyrs Absenoldebau Awdurdodedig wedi darparu cymorth rhagorol i ddisgyblion sy'n cael eu cofrestru'n absennol oherwydd salwch, fel therapi ymyrraeth i deuluoedd.

Mae strategaethau i gynorthwyo athrawon i reoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn helpu i osgoi gwaharddiadau. Mae defnyddio'r cynorthwywyr addysgu ymddygiadol arbenigol yn rhoi cymorth medrus, targedig i ysgolion. Mae trefniadau da ar gyfer trefnu symudiadau ysgol i ddysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i blant y gofelir amdanynt. Mae fforwm a ddatblygwyd yn ddiweddar, i hybu ymwybyddiaeth o anghenion plant y gofelir amdanynt, wedi cryfhau rôl yr awdurdod fel rhiant corfforaethol ymhellach. Mae'r fforwm hwn yn cynnwys tri aelod etholedig, a'i nod yw sicrhau bod cynlluniau strategol yr aelodau wedi'u seilio ar wybodaeth o ansawdd da am blant y gofelir amdanynt. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith strategol y fforwm hwn.

Mae'r awdurdod wedi helpu ysgolion i ddatblygu ac addasu polisïau gwrthfwlio yn dda ac wedi codi ymwybyddiaeth o ymddygiad sy'n gysylltiedig â bwlio. Mae'r awdurdod yn monitro enghreifftiau o fwlio ac ymddygiad hiliol yn effeithiol.

Mae gwasanaethau arbenigol yn rhoi cymorth da i blant Sipsiwn Teithwyr a rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY). Mae hyn wedi effeithio ar welliannau yng nghyrhaeddiad a phresenoldeb y disgyblion sy'n cael cymorth.

Mae gan y gwasanaeth seicoleg addysg raglen ragorol sy'n gwella iechyd emosiynol disgyblion ysgol gynradd. Caiff effaith y rhaglen hon, sy'n arwain y sector, ei harfarnu'n glir iawn ac fe rannwyd y canfyddiadau â phartneriaid eraill yn y sector, y mae rhai ohonynt wedi mabwysiadu'r rhaglen.

Mae darpariaeth ddefnyddiol, dargedig sy'n rhoi cymorth da i ddysgwyr sy'n agored i niwed a rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth wasanaethau, gan gynnwys darparu cyrsiau galwedigaethol priodol.

Mae gan yr awdurdod lleol bolisi a gweithdrefnau clir yn ymwneud â diogelu. Mae datgeliadau manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar waith i oedolion sy'n gweithio â phlant. Hefyd, mae hyfforddiant cynhwysfawr ar waith mewn diogelu ac amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae'r modd y caiff hyfforddiant ei fonitro yn golygu na all yr awdurdod lleol fod yn hollol sicr a yw ychydig iawn o'r staff wedi cael eu hyfforddi eto ai peidio.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Caiff trefniadau derbyn yr awdurdod eu cydlynu'n effeithiol ar draws ysgolion cymunedol, sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi i rieni yn dryloyw ac yn glir. Mae'r fforwm derbyn yn gweithio'n effeithiol a chaiff bron pob un o ddewisiadau'r rhieni eu bodloni. Eir i'r afael ag apeliadau'n briodol.

Mae'r awdurdod yn adolygu digonolrwydd darpariaeth y blynyddoedd cynnar a'r ddarpariaeth chwarae yn rheolaidd ac, at ei gilydd, mae'n bodloni anghenion plant a'u teuluoedd. Mae ganddo weithdrefnau da ar waith i fonitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth hon. Caiff anghenion hyfforddiant eu hadnabod yn dda a chaiff effaith hyfforddiant ei harfarnu'n effeithiol.

Mae systemau ar gyfer rhagweld nifer y disgyblion a'r galw am leoedd yn effeithiol ac yn ystyried effaith trefniadau cydweithredol i ddysgwyr 14 i 19 oed. Mae cynlluniau rheoli asedau yn dda ac mae gwybodaeth yr awdurdod am gynhwysedd, cyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd adeiladau ysgol yn gywir ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Er 2008, mae'r awdurdod wedi lleihau nifer y lleoedd yn ei ysgolion, yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf yn dangos bod gan yr awdurdod ganran ychydig yn uwch o leoedd gwag na chyfartaledd Cymru gyfan yn y sectorau cynradd ac uwchradd, fel ei gilydd. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio.

Mae'r awdurdod wedi datblygu ei Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn dda. Mae'r prosiect wedi'i reoli'n dda ac mae wedi'i seilio ar ymgysylltiad tryloyw ac effeithiol â rhanddeiliaid, fel penaethiaid a llywodraethwyr. Yn briodol, mae'r amcanion yn cynnwys lleihau nifer y lleoedd gwag.

Mae'r awdurdod wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion uwchradd bresennol yn ofalus. Mae wedi gwneud penderfyniad gwybodus nad yw ad-drefnu ei ysgolion uwchradd presennol yn helaeth yn opsiwn ymarferol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cynlluniau'n cael eu datblygu i ddefnyddio lleoedd gwag trwy gydweithio â'r coleg lleol, timau ardal arbenigol ac ysgolion cynradd yn y dalgylch.

At ei gilydd, caiff gwasanaethau cymorth ieuenctid eu cydlynu'n dda. Caiff y gwasanaethau sydd eu hangen eu mapio'n effeithiol. Mae ystod dda o ddarpariaeth sy'n galluogi pobl ifanc i fanteisio ar eu hawliau.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r aelodau etholedig a'r uwch swyddogion yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Ar lefel gorfforaethol, maent wedi symud prif flaenoriaeth addysg yr awdurdod ymlaen yn effeithiol, sef ei Raglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd. Hefyd, maent wedi sicrhau bod gan wasanaethau addysg adnoddau da. Mae'r arweinwr hyn yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu'n agored â phob un o'r rhanddeiliaid yn gyson. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud ar sail gwybodaeth gadarn ac â chymaint â phosibl o dryloywder.

Mae ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid, wedi'i seilio ar berthynas gadarnhaol a chyfathrebu da, yn un o nodweddion yr arweinyddiaeth o fewn y gwasanaeth addysg hefyd. Mae'r rhinweddau hyn yn cyfrannu at ethos tîm cadarnhaol sy'n helpu i gyflwyno cynlluniau strategol a busnes y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cysylltu'n glir â Strategaeth Gymunedol a Chynllun Corfforaethol yr awdurdod, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol perthnasol.

Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion allweddol yn cyfarfod yn rheolaidd â rheolwyr o bob gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion, i drafod ystyriaethau sydd o bwys i bob un ohonynt.

Mae gan ddeiliaid portffolios ddealltwriaeth dda iawn o'u meysydd cyfrifoldeb. Yn gyffredinol, mae pob grŵp gwleidyddol yn cefnogi gwaith a chyfeiriad y gwasanaeth addysg. Mae'r broses graffu wedi'i threfnu'n dda. Mae rhaglenni gwaith pwyllgorau craffu a'r cabinet wedi'u halinio'n dda er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth wneud penderfyniadau. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau bod aelodau pob grŵp

gwleidyddol yn cyfrannu at benderfyniadau ac at fonitro cynnydd. Mae'r system yn gweithio'n dda ac, oherwydd hynny, anaml iawn y mae angen i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniadau ar gais y pwyllgorau craffu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr awdurdod hanes da o wella'n barhaus. Mae wedi ymateb yn dda i argymhellion adroddiadau Estyn ar addysg a gwasanaethau cymorth ieuenctid yn 2008. Mae gan yr awdurdod brosesau ymgynghori da â rhanddeiliaid ar gyfer gwasanaethau addysg a gwaith partneriaeth. Mae'r uwch swyddogion a'r aelodau etholedig yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau gwelliannau i wasanaethau, er enghraifft, mynd i'r afael â thanberfformio a nifer y datganiadau terfynol sy'n cael eu cyhoeddi ymhen 26 wythnos.

Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yw'r corff sy'n gyfrifol am gynllunio, monitro ac arfarnu pob gwasanaeth i blant a phobl ifanc yng Nghonwy. At ei gilydd, mae'r bartneriaeth yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod systemau cadarn ar gyfer gwella ansawdd.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi datblygu a gweithredu 'Fframwaith Ansawdd' a 'Chynllun Gweithredu Ansawdd' da. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi'r cyfrifoldeb o reoli risg, rheoli perfformiad, arfarnu, rheoli adnoddau a chynllunio pob maes gwasanaeth i'r bartneriaeth. Mae'r ffocws clir ar gynlluniau wedi'u seilio ar ddeilliannau, a rheoli adnoddau trwy adolygu meysydd gwasanaeth, yn rhoi rhagolygon da i gynllunio a blaenoriaethu rhagor o welliannau ar draws y bartneriaeth.

Mae gan yr awdurdod brosesau hunanarfarnu da ar draws pob maes gwasanaeth. Cyfrannodd ymgynghoriadau da ag ystod o randdeiliaid, fel penaethiaid, yn dda at yr adroddiad hunanarfarnu, a chafodd yr arfarniad ei lywio'n dda gan ddata mewn sawl maes. Fodd bynnag, nid oedd y data a oedd ar gael yn ddigon cynhwysfawr i'r awdurdod asesu cynnydd grwpiau o ddysgwyr mewn ychydig iawn o feysydd yn gwbl gywir, fel rhaglenni lles a rhaglenni dysgu anffurfiol/heb fod yn ffurfiol.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod yn adnabod ei hun yn dda. Fodd bynnag, ni roddodd arfarniad digon strategol o ba mor dda y mae gweithgareddau'n cyflawni canlyniadau sy'n bodloni blaenoriaethau strategol ac anghenion dysgwyr.

Caiff arfer dda ei rhannu'n dda trwy weithgareddau fel y gweithdai arfer dda, gwefan cymuned ymarfer, adroddiadau perfformiad y Grŵp Nodau Craidd, Byrddau Gwella, ac adroddiadau arfarnu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn chwarae rhan allweddol mewn arwain cydweithio yn dda iawn. Mae'n dod â grwpiau ynghyd yn effeithiol, fel timau iechyd a gofal cymdeithasol, yr heddlu a gweithwyr addysg. O ganlyniad, mae'r grwpiau hyn yn meithrin dealltwriaeth dda ar y cyd o anghenion pobl ifanc a dysgwyr ac yn helpu i gyflwyno cynlluniau strategol a chynlluniau busnes. Caiff pobl ifanc a dysgwyr gyfleoedd da i ddylanwadu ar waith y bartneriaeth a'i gyfeirio.

Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol wedi sefydlu model cyffredin ar gyfer rheoli perfformiad ar draws y partneriaethau statudol yn effeithiol, wedi'i seilio ar fodel yr awdurdod lleol. Mae gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc fframwaith sicrhau ansawdd a phroses adrodd dda. Mae'r adroddiadau perfformiad rheolaidd yn mapio cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn dda ac yn nodi lle mae cynnydd yn araf. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau hyn yn dueddol o ganolbwyntio mwy ar ddisgrifio'r hyn a wnaed, yn hytrach nag ar y gwahaniaeth y mae'r gwaith yn ei wneud i blant a phobl ifanc. Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn rhoi mesurau ar waith i wella'r modd y caiff deilliannau eu harfarnu.

Erbyn hyn, mae newidiadau i'r modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u harfarnu yn cyflwyno tystiolaeth gadarnach i ddarparwyr gwasanaethau a bwrdd y bartneriaeth wneud penderfyniadau defnyddiol ynghylch comisiynu a dadgomisiynu gwasanaethau. Mae'r ffocws hwn ar newid wedi'i seilio ar dystiolaeth yn hytrach na newid wedi'i seilio ar y gyllideb yn helpu rheolwyr i gymryd rhan yn fwy hyderus mewn cydweithio a rhannu adnoddau. Mae tîm cymorth y bartneriaeth yn hwyluso'r arfer o rannu adnoddau rhwng y partneriaid yn dda, er enghraifft, trwy rannu adeiladau. Mae gan wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) gostau is ac maent wedi gwella sut a phryd y maent yn cyfarfod â phobl ifanc.

Mae'r awdurdod wedi cynyddu ystod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i ddysgwyr, trwy gynllunio da a chydlynus, a chydweithredu rhwng ei ysgolion uwchradd a Choleg Llandrillo.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu gallu ac ystod y cymorth sydd ar gael i wella ansawdd dysgu trwy bartneriaeth dda â'r awdurdodau cyfagos. Mae Conwy yn cyfrannu'n dda at gonsortiwm o chwe awdurdod yng ngogledd Cymru sy'n cynllunio gwasanaethau rhanbarthol ar y cyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae lefel uchel y cyllid sy'n cael ei dyrannu i'r gwasanaeth addysg yn dangos ymroddiad yr awdurdod tuag at addysg.

Mae gan y gwasanaeth hanes o reoli cyllid yn dda. Mae systemau diweddar da ar waith i reoli adnoddau'n dda ar draws y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae gan y swyddogion ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa ariannol, ac mae'n monitro sefyllfa'r gyllideb yn fisol. Yn 2010-2011, yn gynnar yn y broses, nododd y gwasanaeth orwariant rhagamcanol ar leoli disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion y tu allan i'r sir, a rhoddod wybod i'r pwyllgor craffu amdano. O ganlyniad, mae'r awdurdod wedi defnyddio proses dryloyw i ystyried a chymeradwyo achos busnes a ddylai arwain at fwy o gyllid ar gyfer 2011-2012.

Mae cyfanswm y balans ariannol sy'n cael ei gadw gan ysgolion yn uchel o hyd, ond mae wedi disgyn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r awdurdod yn rhagfynegi gostyngiad sylweddol arall ar ddiwedd 2010-2011. Mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion esbonio balansau uchel, ond mae'n cymryd gofal i beidio ag annog ysgolion yn anfwriadol i wario'n ddiangen. Er gwaethaf ymdrechion yr awdurdod, nid yw ychydig iawn o ysgolion wedi gwireddu cyfleoedd yn llawn i ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â gwelliannau angenrheidiol i safonau.

Mae'r awdurdod yn defnyddio data cynhwysfawr ar ansawdd adeiladau yn dda iawn i dargedu'r modd y mae'n defnyddio adnoddau cyfalaf, er mwyn sicrhau gwerth da am arian. Fodd bynnag, mae llai o gysondeb yn y modd y caiff data ei ddefnyddio i helpu i dargedu rhai elfennau o gyllideb refeniw, ac arfarnu a yw'n cyflawni gwerth am arian ai peidio. Er enghraifft, nid yw'r awdurdod yn coladu digon o ddata am ddeilliannau i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd arfarnu'r effaith ar safonau yn llawn, ynghyd â chostau'r penderfyniad diweddar i ddirprwyo cyllid ychwanegol i ysgolion. Oherwydd hynny, nid oes gan yr awdurdod drosolwg cyflawn o b'un a yw pob gwasanaeth i ddysgwyr yn darparu gwerth da ai peidio. Fodd bynnag, o ystyried y lefelau gwariant o fewn y gyllideb addysg a'r deilliannau a gyflawnwyd ar y cyfan, mae'r gwasanaeth addysg yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Gerard Kerslake AEM | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Rhona Edwards AEM | Arolygydd Tîm |
| Maldwyn Pryse AEM | Arolygydd Tîm |
| Iwan Roberts AEM | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Tîm |
| Nigel Vaughan AEM | Arolygydd Tîm |
| Pauline Preston AY | Arolygydd Tîm |
| Huw Lloyd-Jones | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Karen Lees | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gregory Owens | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dilwyn Price | Enwebai |
| Angharad Reed AEM | CC – Safonwr |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).